STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

# Gweithio mewn Partneriaeth â Rhieni

# Beth yw gwaith partneriaeth effeithiol?

Mae partneriaethau effeithiol yn gofyn am ymrwymiad, ymddiriedaeth a pharch gan bawb. Er mwyn i blant gael budd o'r ysgol, mae'n bwysig iawn bod eu rhieni yn meithrin cydberthynas gadarnhaol gyda'r ysgol. Bydd angen manteisio ar weithdrefnau a phrotocolau safonol yr ysgol o ran cynnwys rhieni, yn ogystal â gwneud unrhyw drefniadau ychwanegol er mwyn sicrhau bod modd i bawb gyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Mae modd meithrin cydberthnasau da gyda phartneriaid drwy:

- Gydnabod y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad gwahanol sydd gan bob un.
- Gwerthfawrogi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad gwahanol sydd gan bob un.
- Cydnabod yr angen am fewnbwn gan bob partner.
- Sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn cael eu gwerthfawrogi.


Er mwyn cynnal y bartneriaeth rhwng rhieni, ysgolion, yr awdurdod lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol, mae'n hanfodol fod pawb yn rhannu dealltwriaeth, yn ymddiried yn ei gilydd, yn parchu ei gilydd ac yn llawn cydymdeimlad. Yn ogystal â hynny, mae modd i hyn helpu i ddatrys problemau ac anghydfod.

# Meithrin Partneriaeth

Mae'r gwaith o feithrin partneriaeth gadarn rhwng asiantaethau yr un mor bwysig â deilliannau'r broses. Mae cynnwys rhieni yn addysg eu plentyn o fudd i bawb; mae modd iddo fod yn brofiad dysgu iach, hyrwyddol a chadarnhaol. Mae'n hanfodol y caiff partneriaeth ei meithrin yn yr un modd ar y camau asesu, cynllunio, darparu ac adolygu mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol posibl. Nod hyn yw sicrhau bod y rhieni yn teimlo eu bod nhw'n rhan o'r broses ac yn hyderus bod y gwasanaethau yn diwallu anghenion eu plentyn.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol –**

**Pedwar Cam y Gylchred Barhaus**




## Sut i nodi eich pryderon

Os ydych chi'n bryderus am gynnydd eich plentyn yn yr ysgol, dylech chi siarad â'r athro dosbarth i ddechrau. Os oes gyda'ch plentyn anghenion dysgu ychwanegol, dylech chi siarad â'ch Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'ch Cydlynydd AAA. Yn ogystal â hynny, mae modd i chi siarad â'r Pennaeth.

Os yw eich pryderon yn ymwneud â'r cymorth mae eich plentyn chi'n ei gael, mae modd i chi ofyn i weld polisi'r ysgol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dylech chi rannu unrhyw bryderon eraill gyda'r pennaeth.

Mae modd datrys llawer o broblemau yn anffurfiol a hynny drwy siarad â'r athrawon yn ysgol eich plentyn. Cyn cymryd unrhyw gamau pellach, sicrhewch eich bod chi wedi rhannu eich pryderon.